**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
ymgynghori@rctcbc.gov.uk

05/11/202

Annwyl Gyfaill,

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032**

## 1. Sylwadau agoriadol

**1.1** Yn gyffredinol credwn fod y cynllun strategol hwn yn adlewyrchu gweledigaeth gadarnhaol y Sir dros y Gymraeg ym myd addysg. Rydym yn croesawu'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys a bydd cyflawni amcanion a thargedau'r cynllun hwn yn gam arwyddocaol yng nghyd-destun cyfraniad y sir at y weledigaeth genedlaethol o Gymru gynyddol ddwyieithog. Er ein bod yn gefnogol i dargedau a phrif gonglfeini'r cynllun, credwn byddai modd ei gryfhau'r pe bai'r cygor yn rhoi sylw i'r materion a godir yn ein hymateb isod. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ymhellach wrth i'r sir weithredu'r cynllun ac i gyflawni ei gweledigaeth dros yr iaith Gymraeg.

**1.2** Yn naturiol, bydd ein hymateb isod yn canolbwyntio yn bennaf ar yr agweddau o'r cynllun yr ydym o'r farn y gallesid eu cryfhau. Mae 2 brif bwynt yn codi yn ein hymateb sydd angen eu pwysleisio (byddwn yn ymhelaethu ar y rhain yn ein hymateb fesul deilliant isod):

- **Mwy o fanylder ac ymrwymiadau penodol ar gyfer Deilliant 1 a 2:** Oherwydd sefyllfa a natur bresennol darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sir, mae llwyddiant y strategaeth 10 mlynedd hon yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflawni amcanion a thargedau Deilliant 1 a 2. Os bydd y Cyngor yn llwyddo i sicrhau'r cynnydd sylweddol yn niferoedd y plant fydd yn mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun, yna wrth reswm fe fydd pwyslais cynyddol ar Ddeilliannau eraill y cynllun (yn enwedig y ddarpariaeth uwchradd). Yn y cyd-destun hwn credwn fod angen mwy o fanylder ac eglurder ar gyfer Deilliant 1 a 2, yn enwedig o ran

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ac o ran cyfraniad datblygiadau sydd eisoes ar y gweill i gyflawni'r targedau 10 mlynedd sydd wedi'u gosod. Ar hyn o bryd mae amryw o'r pwyntiau gweithredu yn rhy amwys ac ddim yn cynnwys amserlen penodol ar gyfer eu gweithredu. Mae hyn yn arbennig o wir o ran ehangu darpariaeth gofal ac addysg blynyddoedd cynnar; y gwaith o hyrwyddo'r ddarpariaeth hon; a sicrhau cyfraddau trosglwyddo effeithiol i mewn i ddosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg. Byddai hefyd modd cynnwys rhagor o fanylder ynghylch y datblygiadau tebygol fydd angen eu hystyried a'u cynllunio yn ail hanner oes y cynllun (hynny yw, ar ben y cynlluniau sydd eisoes ar waith).

- **Cynnwys dadansoddiad mwy eglur o'r sefyllfa gyfredol:** Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae'r ddogfen ymgynghori mewn sawl man yn cynnwys ymrwymiad i gynnal ymarferiad mapio darpariaeth, a hynny at bwrpas adnabod gwendidau a chynllunio strategaethau er mwyn gwella'r sefyllfa. Rydym yn cytuno bod angen i waith mapio a dadansoddi o'r fath fod yn broses parhaol. Er hynny, mae gan y Cyngor eisoes ddealltwriaeth fanwl iawn o'r ddarpariaeth bresennol fel y gwelir yn yr atodiadau, a chredwn y gallasai'r cynllun yn ei gyfanrwydd gyfeirio yn fwy cyson a manwl at y ddealltwriaeth a'r data hwn fel sail ar gyfer gosod pwyntiau gweithredu. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â Deilliant 1 a 2. Dyw'r adrannau hyn ddim ar hyn o bryd yn llwyddo i egluro'n effeithiol y sefyllfa gyfredol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, hyd a lled yr her o ran cyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod, a'r cyfraniad bydd ymrwymiadau a chynlluniau penodol yn gweud tuag at gyflawni'r targedau. Canlyniad hyn oll yw ei bod yn anodd iawn dod i farn bendant ynghylch a yw'r cynlluniau yn ddigonol er mwyn cyflawni'r targedau heriol sydd wedi'u gosod. Byddai cynnwys mwy o'r data sydd ar hyn o bryd yn yr atodiad fel rhan o'r naratif y gwahanol ddeilliannau gam cychwynnol ar gyfer cryfhau'r agwedd hwn o'r cynllun.

**1.3** Fel pwynt cyffredinol, hoffem bwysleisio'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng gofynion llunio CSCA, a dyletswyddau'r Sir yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

- Fel y gwyddoch, yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae gofyn i'r Sir gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae 5 math o safonau perthnasol ac yn eu plith mae'r safonau llunio polisi a safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sir lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal.

- Mae'r safonau llunio polisi yn cynnwys gofynion i gorff sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid yw gofynion y safonau llunio polisi yn bodoli mewn gwagle ar wahân i ofynion sy'n deillio o ddeddfau neu ddyletswyddau eraill, er enghraifft Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno CSCA.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Credwn fod manteision amlwg i'r Cyngor ystyried y dyletswyddau sydd arno dan y safonau llunio polisi ochr yn ochr â dyletswyddau cysylltiedig y CSCA a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Bydd sicrhau bod gweledigaeth ac amcanion y CSCA yn ganolog i'r broses fwy cyffredinol o asesu effaith penderfyniadau polisi'r sir yn hwyluso cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi.

- Yn yr un modd bydd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion y safonau llunio polisi wrth asesu effaith cynigion polisi yn y dyfodol yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth ac amcanion y CSCA. Y pwynt allweddol yma yw'r angen i'r sir sicrhau proses drylwyr ar gyfer asesu a diwygio cynigion polisi yn y dyfodol, a hynny er mwyn sicrhau yr effeithiau mwyaf cadarnhaol posib ar y Gymraeg a chyflawniad y CSCA. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau polisi ym maes addysg yn benodol, ond hefyd penderfyniadau polisi mwy eang, er enghraifft, yn ymwneud a chynllunio, yr economi, neu gludiant.

- Er hynny, mae'n bwysig sylweddoli y gall y gofynion i ystyried effeithiau penderfyniadau ar y Gymraeg fod yn wahanol o dan safonau'r Gymraeg o'i gymharu â'r ddyletswydd dan ddeddfwriaethau eraill. Mae'n golygu y gallai gofynion y safonau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau pellach i gydymffurfio â'r safonau.

- Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd Gomisiynydd y Gymraeg ddogfen cyngor arferion da Safonau Llunio Polisi, sy'n cynnig syniadau a chyngor ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gydymffurfio â dyletswyddau iaith statudol, yn enwedig mewn perthynas â gofynion deddfwriaethol eraill sy'n berthnasol i'r Gymraeg. Credwn y bydd y ddogfen gyngor yma yn gymorth i'r Cyngor, nid yn unig o ran cydymffurfio a gofynion Mesur y Gymraeg Cymru, ond hefyd er mwyn sicrhau bod gweledigaeth y sir dros yr iaith Gymraeg yn treiddio'n llwyr i agenda a phenderfyniadau polisi addysg y sir.

## 2. Deilliannau CSCA

### Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**2.1** Rydym yn croesawu'r drafodaeth o'r nifer helaeth o gamau sydd eisoes wedi'u cymryd er mwyn sicrhau cynnydd yn narpariaeth cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Fel mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi, er gwaethaf y camau mae'r Cyngor eisoes yn cymryd, nid yw'n ymddangos bod llawer o gynnydd wedi bod yn nifer y dysgwyr cyn-meithrin a meithrin sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'n amlwg felly bod rhaid i'r Cyngor gyflwyno newidiadau sylweddol ac arwyddocaol i'r ffyrdd o gynllunio ac hyrwyddo darpariaeth

cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg, os am gyrraedd y targedau heriol sydd wedi'u gosod (cynnydd o 21% yn 2022 i 30% erbyn 2031).

**2.2** Yn ôl data diweddaraf Arolygiaeth Gofal Cymru, yn 2019-20 roedd 12% o leoedd gofal plant yn Rhondda Cynon Taf yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac 8% yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Mae hyn yn cymharu â 19.1% o blant cynradd Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ystadegau am ddarpariaeth gofal plant yn y sir, nid yw'n hawdd deall sefyllfa bresennol gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg y sir, yn benodol mewn perthynas â'r targedau sydd wedi'u gosod ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Rydym yn deall wrth gwrs fod sefyllfa a data gofal plant yn gallu bod yn gymhleth, ond byddai'n ddefnyddiol cael dehongliad a barn y sir ynghylch y sefyllfa ar hyn o bryd. Er enghraifft;

- A oes capasiti digonol yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r twf mae'r sir yn dymuno ei weld o ran niferoedd fydd yn derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun?
- Os oes angen cynyddu capasiti er mwyn cyflawni targedau'r cynllun strategol, yna beth yw maint y dasg sy'n wynebu'r cyngor yn y cyd-destun hwn, a pha ardaloedd yn benodol fydd yn cael eu targedu a phryd?

**2.3** Yn gysylltiedig â'r sylwadau uchod, rydym yn croesawu llwyddiant y Cyngor i sicrhau arian grant cyfalaf at bwrpas sefydlu ac ehangu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae manylder yn cael ei gynnwys am nifer o'r prosiectau cyfrwng Cymraeg sydd wedi, neu wrthi yn cael eu gweithredu. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod y cyngor yn rhagweld cynnydd o 65% yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i'r prosiectau yma. Er ein bod yn croesawu hyn yn fawr, byddai'n ddefnyddiol deall arwyddocâd y datblygiadau hyn yng nghyd-destun y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl ar ddiwedd tudalen 14. Hynny yw, a fydd y datblygiadau hyn yn ddigonol er mwyn sicrhau'r capasiti angenrheidiol a fydd yn arwain at gyflawni'r targedau, neu a fydd angen cynlluniau pellach mewn rhai ardaloedd?

**2.4** Rydym yn deall pwysigrwydd cyllid grant ar gyfer sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sir, yn enwedig o ran unrhyw brosiectau cyfalaf sylweddol. Er hyn mae'r trydydd paragraff ar dudalen 13 yn awgrymu bod unrhyw ddatblygiadau pellach o safbwynt sefydlu darpariaeth newydd (hynny yw, y tu hwnt i'r cynlluniau sydd eisoes wedi'u hariannu ac wedi'u cytuno) yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol yn y dyfodol. Er mor allweddol yw sicrhau cyllid digonol gan Lywodraeth Cymru, credwn fod angen cydnabod yma hefyd gyfrifoldebau a gallu'r Sir i weithredu ac ariannu cynlluniau ar gyfer ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg.

**2.5** Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i gynnal ymarferiad mapio i ddeall yn well lefel y ddarpariaeth bresennol. Er hyn, mae'n rhwystredig na chafodd y gwaith mapio ei wneud yn ystod proses llunio'r cynllun strategol hwn, fel y bo modd felly gynnig

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

dadansoddiad a phwyntiau gweithredu mwy manwl yma. Dylai pwyntiau gweithredu'r CSCA gael ei lunio ar sail gwaith mapio a dadansoddi manwl, yn hytrach na chynnwys ymrwymiad i gynnal gwaith mapio o'r fath yn y dyfodol. Credwn felly ei bod yn allweddol bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn gynnar yn oes y strategaeth, a hynny er mwyn gallu gweithredu ar sail y canfyddiadau. Byddai'n ddefnyddiol felly gynnwys amserlen fwy penodol ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith hollbwysig hwn, a hefyd ar gyfer addasu'r cynllun strategol ar sail y canfyddiadau. Er enghraifft, ai bwriad y Cyngor yw defnyddio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant nesaf fel ffordd o fapio yn fwy manwl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?

**2.6** Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod nifer y Cylchoedd Meithrin a nifer y plant sy'n mynychu Cylchoedd meithrin wedi gostwng dros y 5 mlynedd diwethaf. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o fanylder ynghylch y rhesymau dros hyn, a sut bydd hyn yn newid yn sgil y prosiectau cyfalaf sydd wedi cael eu cwblhau, neu ar fin cael eu cwblhau. O edrych ar y tablau yn yr atodiad ymddengys bod niferoedd y cylchoedd meithrin wedi bod yn gyson tan 2019/20 a bod y niferoedd oedd yn mynychu wedi bod yn cynyddu hyd at 2019/20. Mae'n debyg bod y gostyngiad yn 2019/20 yn bennaf yn ganlyniad i effeithiau pandemig Covid 19, ac o bosib bod y naratif bod niferoedd yn lleihau ychydig yn gamarweiniol?

**2.7** Mae datblygu capasiti y sector yng nghyd-destun y targedau yn hollbwysig, ond mae rhaid hefyd sicrhau bod teuluoedd yn manteisio ar y ddarpariaeth hon. Yn y cyd-destun hwn rydym yn croesawu'r sylw sy'n cael ei neilltuo i faterion yn ymwneud ag hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn fod angen ymrwymiad mwy pendant ynghylch cynnwys hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o Raglen Iechyd y Gwasanaeth Lles a Chydnerthedd. Mae'n bosib byddai modd ymhelaethu yma hefyd ar ymrwymiadau'r cyngor o ran marchnata addysg cyfrwng Cymraeg (fel yr amlinellir ar ddiwedd y ddogfen ar dudalen 40). Mae'n debyg mai'r brif her yw argyhoeddi teuluoedd i gychwyn eu plant ar y daith mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac felly mae angen sylw penodol i hyrwyddo a marchnata darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Yn gysylltiedig â hyn, mae'n hanfodol bod unrhyw waith mapio ac ymchwil pellach y bydd y cyngor yn ei gynnal yn ystyried materion yn ymwneud â chludiant i ddarpariaeth gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sicrhau bod y ddarpariaeth o fewn pellter rhesymol ac sy'n hwylus i rieni yn allweddol i sicrhau bod mwy o deuluoedd yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

## Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

**2.8** Yn gysylltiedig â phwynt 2.5 uchod, mae'n peri rhwystredigaeth inni fod ymrwymiad yma i gynnal ymarferiad mapio ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr ardal, i

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ddadansoddi'r diffygion, nodi meysydd i'w gwella, a llunio strategaethau er mwyn cyflawni gwelliannau. Dyna yw'r hyn y dylai'r cynllun strategol hwn ei wneud. Er bod rhywfaint o gyfeirio at ddata a'r sefyllfa gyfredol yn y ddogfen drafft, credwn bod lle i gryfhau yr agwedd hwn o'r cynllun. Mae'r data a'r wybodaeth eisoes gan y Cyngor ac felly mae angen cynnwys dadansoddiad o'r fath fel sail ar gyfer ymrwymiadau Deilliant 2.

**2.9** Rydym yn croesawu'r nifer o brosiectau cyfalaf arwyddocaol sydd wrthi yn cael eu gweithredu yn y sir. Yn amlwg fe fydd y prosiectau hyn yn ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sir, ond byddai'n defnyddiol derbyn mwy o fanylder ynghylch hyn. Hynny yw, beth yw arwyddocâd y datblygiadau hyn yng nghyd-destun targedau'r Cyngor a'u cyfraniad at y targed o 32% o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae'r cynlluniau hyn eisoes ar y gweill. Hoffem wybod beth fydd y Cyngor yn ei wneud yn ychwanegol i hyn yn y dyfodol, wedi'r cyfan byddai'n fuddiol iawn o safbwynt Strategaeth Cymraeg 2050 petai'r targed hwn yn cael ei basio.

**2.10** Rydym yn cytuno yn llwyr fod angen hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr o bob oedran, a bod darpariaeth trochi yn y Gymraeg yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Er hyn mae'r ymrwymiadau ar dudalen 17 yn amwys ac yn nodi bydd y Cyngor yn ystyried creu dosbarth trochi ar gyfer hwyrddyfodiad. Os nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd mewn lle i gynnwys ymrwymiad mwy pendant, yna credwn fod angen nodi'n fwy penodol y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad, yn ogystal a pryd fydd hyn yn digwydd. Mae hefyd rywfaint o anghysondeb yma gan fod brawddeg olaf paragraff 4, tudalen 18 yn nodi bydd y 'Cyngor wedi creu dosbarth trochi yn y Gymraeg ar gyfer hwyrddyfodiad' yn ystod oes y cynllun.

**2.11** Yn gyffredinol, nid ydym o'r farn fod digon o fanylder na phwyntiau gweithredu pendant ar gyfer y deilliant hollbwysig hwn. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod canran y dysgwyr gafodd eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gostwng o 21% yn 2015 i 18% yn 2019. Mae angen dadansoddiad manwl o'r sefyllfa gyfredol ac effaith prosiectau cyfalaf presennol ar gapasiti'r sector cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwyntiau gweithredu ar gyfer sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer dysgwyr dosbarth derbyn fydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun yn seiliedig ar 3 phwynt gweithredu sydd ar y cyfan yn amwys. Yn gyntaf mae sôn am y prosiectau cyfalaf sydd eisoes wedi'u cytuno ac wrthi yn cael eu gweithredu. Yn ail mae sôn am gyllid ychwanegol fydd o bosib ar gael ar gyfer prosiectau ychwanegol yn y dyfodol, ond heb ddim sôn am natur na lleoliad y datblygiadau hyn. Ac yn olaf, mae ymrwymiad i gynnal gwaith mapio mwy manwl yn y dyfodol. Fel mae'n sefyll, nid yw'r drafodaeth yma yn ein argyhoeddi ni bod cynlluniau digon cadarn mewn lle ar gyfer sicrhau'r cynnydd sylweddol yn nifer plant dosbarth derbyn fydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. I ategu'r pwyntiau cyffredinol a wnaed yn 1.2 uchod credwn mai un lle amlwg y gellid cryfhau'r

strategaeth yw drwy ddarparu llawer mwy o fanylder ac eglurder ynghylch y gwaith hollbwysig o ehangu darpariaeth gofal ac addysg blynyddoedd cynnar, hyrwyddo'r ddarpariaeth hon, ac yna sicrhau cyfraddau trosglwyddo effeithiol i mewn i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

**Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

**2.12** Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod 67.9% o blant oedd wedi mynychu cylchoedd meithrin wedi pontio i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn 2019/20. Er bod hyn yn gynnydd sylweddol o'r ffigwr o 57.3% yn 2015/16 mae'n parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 88% ar gyfer 2019/20. Rydym yn croesawu'r ffaith fod y cynllun strategol yn cyfeirio at yr angen i wella'r cyfraddau trosglwyddo hyn, a hefyd fod y gwaith o ddatblygu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar fel eu bod wedi eu cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig. Byddai'n ddefnyddiol derbyn rhagor o fanylder ynghylch y cynlluniau/datblygiadau sydd eisoes yn cael eu gweithredu, yn ogystal â thrafodaeth am effaith posibl y datblygiadau hyn ar gyfraddau trosglwyddo a'r nifer fydd yn debygol o fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

**2.13** Credwn bod angen rhagor o eglurder a thrafodaeth ynghylch y data sy'n cael ei gynnwys ar dudalennau 22 a 23. Rydym yn derbyn bod y cyfraddau yn uchel iawn ar y cyfan ac y byddai parhau a chyfraddau trosglwyddo o'r fath yn gadarnhaol. Efallai byddai modd cyfeirio at niferoedd yn ogystal yn fan hyn, a hynny er mwyn dangos y berthynas rhwng targedau Deilliant 2 a'r niferoedd fydd yn rhaeadru i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol?

**2.14** Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi nad yw cyfraddau trosglwyddo yn destun pryder yn y sir, ond eto mae cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnod allweddol 4 a 5 yn llawer is na'r cyfnodau blaenorol. Rydym yn derbyn bod rhesymau amlwg dros hyn, ond byddai'n ddefnyddiol cynnwys trafodaeth am y cyfraddau trosglwyddo hyn, gan gynnwys yr hyn fydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn ceisio gwella'r cyfraddau hyn. Mae lle amlwg yma i drafod darpariaeth chweched dosbarth yn ysgolion uwchradd y sir, a hefyd i drafod darpariaeth ôl-16 mewn colegau addysg bellach. Gwyddom fod rhywfaint o drafodaeth am y materion hyn yn Neilliant 4.

**Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**2.15** Fel mae'r ddogfen ymgynghori yn ei nodi, ni fydd y gwaith o gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg (720 o ddysgwyr ym mlwyddyn un erbyn 2032) yn debygol o effeithio ar sefyllfa ysgolion uwchradd am sawl blwyddyn.

Gan nad oes chwaith unrhyw ysgolion uwchradd dwyieithog yn y sir, mae'n ddealladwy bod llai o gamau gweithredu amlwg ar gyfer y deilliant hwn.

**2.16** Er hyn, mae'r tabl ar dudalen 28 yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei ragweld yn y niferoedd fydd yn mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg os bydd yn llwyddo i gyflawni targedau ar gyfer deilliant 2. Er na fydd y cynnydd hwn yn rhaeadru i'r sector uwchradd am rai blynyddoedd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r adran hon yn trafod oblygiadau tebygol hyn i'r sector uwchradd yn y dyfodol. Tra ein bod yn derbyn ei bod yn gynnar efallai i drafod prosiectau a strategaethau penodol i ehangu darpariaeth uwchradd y sir, byddai'n ddefnyddiol deall mwy am gynlluniau a gweledigaeth tymor hwy'r sir o ran darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**2.17** Rydym yn croesawu'r manylder o ran y datblygiadau sydd ar waith er mwyn ehangu capasiti ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae'r galw yn uchel ar hyn o bryd. Byddai'n ddefnyddiol gosod y datblygiadau hyn yng nghyd-destun cynlluniau hir dymor y sir – hynny yw, o ran capasiti'r sector uwchradd i ymdopi â'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion fydd yn deillio o'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg dros y deng mlynedd nesaf.

**2.18** Does dim trafodaeth yma am sut bydd y Cyngor yn cydweithio ag ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gwyddom fod rhai ysgolion yn y sir, er enghraifft Ysgol Gyfun Treorci, yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynnwys targed a datganiad ynghylch y materion hyn yn ofyniad yn Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ac yn cael ei grybwyll yng nghanllawiau'r Llywodraeth.

**2.19** Mae'r tabl ar dudalen 24 a 25 yn nodi nifer a chanran y dysgwyr oedran uwchradd a gafodd eu hasesu ar gyfer cymhwyster Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Cymraeg Iaith gyntaf ac Ail Iaith. Er hyn, nid oes trafodaeth o'r data yma, na chwaith strategaeth ar gyfer gwella'r niferoedd hyn. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys cynlluniau mwy penodol o ran sicrhau cynnydd yn y niferoedd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc Lefel A. Gall hyn gynnwys strategaethau hyrwyddo, yn ogystal â materion mwy ymarferol, er enghraifft ym mha golofn(au) mae'r Gymraeg fel pwnc yn cael ei gosod wrth i ddisgyblion ddewis pynciau astudio Lefel A.

**2.20** Yn gysylltiedig â phwynt 2.14 uchod credwn fod angen mwy o sylw i sefyllfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16, boed hynny mewn ysgolion neu mewn colegau addysg bellach. Mae diffyg dilyniant ieithyddol yn y cyfnod yma yn broblem ar lefel genedlaethol. Mae angen dadansoddiad pellach o'r sefyllfa yn y sir, gan gynnwys camau gweithredu mwy pendant o ran sut bydd y Cyngor yn cydweithio â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg a cholegau addysg bellach er mwyn sicrhau cynnig cwricwlaidd deniadol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddogfen ymgynghori yn derbyn bod angen archwilio ymhellach opsiynau i wella darpariaeth addysg TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn crybwyll prosiect E-sgol. Mae'r

ymrwymiadau hyn yn rhy amwys ac mae angen cynnig pwyntiau gweithredu mwy pendant ac amserlen benodol.

**2.21** Un egwyddor bwysig yn ein barn ni yw bod angen sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg i bawb sy'n ei dymuno. Yng nghyd-destun darpariaeth uwchradd y sir nid oes trafodaeth o'r graddau y mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ac o fewn pellter teithio rhesymol i bawb sy'n ei dymuno. Rydym yn deall y gall hyn fod yn heriol o ran daearyddiaeth y sir, ond byddai'n ddefnyddiol cynnwys mwy am sut mae'r sir yn hwyluso mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (er enghraifft, polisïau teithio i ysgolion uwchradd ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg).

**Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol**

**2.22** Rydym yn croesawu'r manylder sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y deilliant hwn, ac nid oes gennym sylwadau pellach ynghylch y camau gweithredu.

**2.23** Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at y ffaith fod gan y Cyngor Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a gafodd ei gymeradwyo yn 2016. Rydym yn falch o weld bod y Cyngor am sicrhau bod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg am gael ei alinio â'r strategaeth hon. Fel y gwyddoch, fe fydd disgwyl i'r Cyngor gyflwyno a chyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r strategaeth hybu 5 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth gychwynnol. Mae manteision amlwg o ystyried a datblygu cynnwys y strategaethau hyn ochr yn ochr.

**Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY')**

**2.24** Yn ôl y ddogfen ymgynghori fe gymeradwyodd Cabinet y Cyngor adroddiad yn 2019 oedd yn amlinellu cynigion penodol ac arwyddocaol ar gyfer newid darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd effaith pandemig Covid-19, cytunodd Cabinet y cyngor i symud ymlaen â chynlluniau amgen - sef i ariannu ysgolion uwchradd prif ffrwd i sefydlu eu cwricwlwm amgen eu hunain ar gyfer dysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Nid yw'n glir i ni i ba raddau mae'r cynlluniau amgen hyn yn mynd i'r afael â'r gwendidau yn narpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg a gafodd eu cyflwyno yn yr adroddiad yn 2019. Rydym yn deall bod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i weithredu mewn sawl maes, ac rydym yn derbyn efallai bod angen newid ac addasu cynlluniau fel canlyniad. Er hyn, byddai'n ddefnyddiol deall os yw'r Cyngor yn bwriadu ailedrych ar argymhellion yr adroddiad yn 2019 yn y dyfodol, ac yn gobeithio gweithredu ar sail yr argymhellion?

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**2.25** Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae cynnal adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd y gweithlu cyfrwng Cymraeg, yn ofynion o dan y ddeddf. Mae paragraff 7.19 y cod hefyd yn nodi os bydd awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. Er bod y ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir ddyhead y Cyngor i gydymffurfio yn llawn â gofynion y ddeddf, credwn byddai cynnwys amserlen fwy manwl o pryd bydd y Cyngor yn adolygu darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynnal adolygiad manwl yn gwbl allweddol, ac mae'n debyg y byddai canfyddiadau unrhyw adolygiad o'r fath yn gyfle amlwg i ail-ystyried rhai o argymhellion yr adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan gabinet y Cyngor yn 2019.

**Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg**

**2.26** Mae adran 5 y ddogfen ymgynghori yn darparu data defnyddiol ynghylch sefyllfa bresennol y gweithlu addysg yn y sir, gan gynnwys canlyniadau cyfrifiad blynyddol y gweithlu addysg. Yr hyn sydd ar goll, fodd bynnag, yw dadansoddiad o ystyr hyn oll yng nghyd-destun targedau a gweledigaeth y sir dros y Gymraeg. Hynny yw, rydym yn derbyn mai'r bwriad yw cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid yw'n glir beth yw maint yr her sy'n wynebu'r sir yn hyn o beth. Byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad lefel uchel ynghylch faint o gynnydd a datblygiad sydd eu hangen o safbwynt y gweithlu cyfrwng Cymraeg er mwyn gallu cyflawni gweddill amcanion y cynllun dan sylw.

**2.27** Er bod llawer o bwyntiau gweithredu cadarnhaol yn cael eu trafod yn yr adran hon, mae rhai o'r pwyntiau gweithredu yn amwys iawn. Er enghraifft sut yn union bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r Mudiad Meithrin i sicrhau bod gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar digonol? Byddai modd cynnwys ymrwymiadau llawer mwy manwl a phendant o ran cydweithio â darparwyr cymwysterau gofal plant, yn ogystal â rhaglenni penodol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Mudiad Meithrin megis Cymraeg Gwaith a Camau.

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd wrth ichi fynd ati i gryfhau'r Cynllun hwn yn dilyn yr ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg